



Adroddiad am ddigartrefedd yng Nghymru



hawdd ei
ddarllen

Cyflwyniad	3
Digartrefedd	5
Beth edrychwyd arno	8
Beth wnaethom ni ddarganfod	10
Gwersi i'w dysgu	14
Camau gweithredu posib i gynghorau	19
Diolch yn fawr	22
Rhagor o wybodaeth	23



Yn y ddogfen hawdd ei darllen hon, bydd y geiriau anodd mewn **print trwm**. Byddwn yn esbonio ystyr y geiriau hyn yn y frawddeg wedyn.



Mae rhai geiriau'n [las ac wedi'u tanlinellu](#). Dolenni yw'r rhain a fydd yn mynd i wefan arall sy'n cynnwys mwy o wybodaeth.

Cyflwyniad



Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn sefydliad annibynnol sy'n delio â chwynion am y canlynol:



- gwasanaethau cyhoeddus - gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau fel cyngorau ac ysbytai.



- cyngorwyr lleol - pobl sy'n cael eu dewis i redeg cyngor.



- cyrff cyhoeddus – sefydliadau sy'n rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd yw'r rhain. Maen nhw'n cael arian gan y llywodraeth ond nid ydynt yn rhan ohoni.



Rydym ni wedi bod yn edrych ar ddigartrefedd yng Nghymru. Dyma adroddiad am yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod.

Gair am yr adroddiad hwn



Weithiau byddwn yn ymchwilio i wasanaeth neu sefydliad oherwydd bod rhywun wedi cwyno amdanynt.



Ond doedden ni ddim wedi cael cwyn am ddigartrefedd. Ein penderfyniad ni oedd ymchwilio i'r pwnc.



Roedd hyn yn golygu ein bod yn gallu edrych ar yr hyn oedd yn digwydd mewn mwy nag ardal un cyngor

Digartrefedd



Mae mwy a mwy o bobl yng Nghymru yn ddigartref.



Mae llawer o bobl yn gofyn i'r llywodraeth am rywle i fyw.

Gwnaethom ni edrych ar rywfaint o wybodaeth am **asesiadau digartrefedd**.

Asesiadau digartrefedd sy'n cael eu gwneud gan y cyngor:




- er mwyn darganfod pam fod rhywun yn ddigartref.
- i benderfynu a oes rhaid i'r cyngor roi rhywle i'r person fyw.



Roeddem am ddarganfod a oedd cynghorau'n gwneud y penderfyniadau cywir.

Gwnaethom edrych a oedd cynghorau:



- yn gwneud asesiadau digartrefedd yn gywir.
- yn dysgu gwersi ar ôl i bethau fynd o chwith.



Roedd **COVID-19** wedi golygu bod yn rhaid i gynghorau wneud pethau'n wahanol.

Mae **COVID-19** yn salwch sy'n lledaenu ledled y byd. Gall effeithio ar eich ysgyfaint a'ch anadlu.



Roedd pawb yn gorfod aros yn eu cartrefi a chadw pellter wrth bobl eraill i gadw'n ddiogel rhag COVID-19.



Roedd hyn yn golygu ei bod yn bwysig bod gan bobl ddigartref le i aros.



Drwy edrych ar beth wnaeth cynghorau'n dda yn ystod COVID-19, gall hyn:

- arwain at newid sut maen nhw'n helpu pobl ddigartref.
- dysgu am y ffyrdd gorau o helpu pobl ddigartref.



Beth edrychwyd arno



Gwnaethom ni edrych ar:

- a oedd asesiadau digartrefedd yn cael eu gwneud yn iawn?
- a oedd pobl yn gwybod y gallen nhw ofyn am **adolygiad**?



Adolygiad yw pan fo rhywun arall yn edrych ar achos eto i wneud yn siŵr bod y cyngor wedi gwneud y penderfyniad cywir.



Os yw adolygiad yn penderfynu bod y cyngor wedi gwneud camgymeriad, rhaid i'r cyngor helpu'r person.



- a oedd cynghorau'n gwybod pam fod adolygiadau yn dweud eu bod wedi gwneud camgymeriadau?



- a oedd cynghorau yn dysgu o'u camgymeriadau?



- a oedd cyngorau yn dweud wrth bobl pa opsiynau eraill oedd ar gael os nad oedd y cyngor yn mynd i'w helpu?
- a allai'r camau a gymerwyd gan gyngorau yn ystod COVID-19 eu helpu i wneud pethau'n well yn y dyfodol?



Gwnaethom edrych ar 3 gyngor lleol:

- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Gwnaethom siarad gyda:



- swyddogion digartrefedd. Mae'r rhain yn gweithio ar adolygiadau ac asesiadau digartrefedd.
- Llywodraeth Cymru.
- mudiadau **trydydd sector**.

Mae'r **trydydd sector** yn cynnwys mudiadau gwirfoddol, grwpiau ymgyrchu ac elusennau.

Beth wnaethom ni ddarganfod



Gwelsom rai pethau yr oedd cyngorau yn eu gwneud yn anghywir. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Doedd swyddogion ddim bob amser yn dilyn y gyfraith ynghylch **hawliau dynol** a **chydraddoldeb** mewn asesiadau ac adolygiadau.



Mae gan bob unigolyn **Hawliau dynol**. Er enghraifft, yr hawl i fod yn fyw a'r hawl i addysg.



Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg a sicrhau bod gan bawb yr un cyfleoedd mewn bywyd.



- Roedd asesiadau ac adolygiadau yn cymryd llawer o amser.



- Roedd swyddogion wedi methu pwyntiau pwysig mewn asesiadau.



- Roedd swyddogion weithiau yn siarad â phobl gan ddefnyddio iaith gymhleth.



- Doedd swyddogion ddim yn ystyried a oedd y lle'n addas i berson fyw yna.



- Doedd swyddogion ddim yn cefnogi pobl oedd mewn perygl o niwed neu gydag **anghenion cymhleth**.



Dyma rai enghreifftiau o **anghenion cymhleth**:

- mwy nag 1 anabledd.
- problemau iechyd.
- ddim yn defnyddio geiriau siarad.



- ymddwyn mewn ffordd a all fod yn anodd i bobl eraill.





Ond roedd rhai pethau roedd pobl yn ei wneud yn dda iawn, sef:



- hyfforddi swyddogion digartrefedd i feddwl am:

- teimladau pobl.

- iechyd meddwl pobl.

- a yw rhywbeth drwg a ddigwyddodd ym mywyd rhywun dal yn effeithio arno.



- cymryd rhan mewn prosiect i ddysgu gan ddefnyddwyr gwasanaeth am sut i ysgrifennu llythyrau gwell.



- llunio dogfen i'w rhoi i bobl gyda gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd.



- rhoi llythyrau i bobl yn rhoi gwybod iddyn nhw pa benderfyniadau sy'n debygol o gael eu gwneud.

Mae hyn yn rhoi amser i bobl:



- cael rhagor o wybodaeth.
- siarad â rhywun i weld a all y gyfraith helpu.



- gweithio gyda gwasanaethau digartrefedd eraill i helpu pobl cyn i bethau fynd yn rhy ddrwg.



- creu gwasanaeth newydd i helpu pobl sydd wedi cael problemau gyda **llesiant** meddyliol.

Mae **llesiant** yn golygu teimlo'n hapus ac yn iach.

Gwersi i'w dysgu



Roedd y tri chyngor wedi cael trafferth cael gafael ar y wybodaeth y gofynnwyd amdani.



Doedd rhywfaint o'r wybodaeth ddim yn dda iawn.



Mae'n bwysig bod digon o wybodaeth i helpu:

- swyddogion.




- **eiriolwyr.**

Mae **eiriolwr** yn berson sy'n eich helpu i leisio'ch barn neu i godi llais ar eich rhan chi.



- pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.



Roedd pob cyngor yn cynnal adolygiadau yn wahanol.

Byddai'n syniad da i gael Rheoleiddiwr Tai.

Gallai Rheoleiddiwr Tai:

- helpu cyngorau.
- Sicrhau bod pawb yn gweithio yn yr un ffordd.
- gwrando ar gwynion.



Gwnaethom ni sylwi bod cyngorau yn dilyn y gyfraith i sicrhau bod asesiadau yn cael eu gwneud yn iawn.



Ond weithiau doedd pobl ddim yn deall y wybodaeth a roddwyd iddyn nhw.




Doedden nhw ddim bob amser yn gwybod y gallen nhw holi am adolygiad.

Rydyn ni'n credu y gellid gwella adolygiadau drwy feddwl am:



- annibyniaeth – mae hyn yn golygu gwneud pethau drosoch chi eich hun a gwneud eich penderfyniadau eich hun.
- Cwblhau nhw yn brydlon.

Rydyn ni'n credu mai'r rheswm pam fod adolygiadau yn dod i gasgliad gwahanol i asesiadau yw oherwydd dydy swyddogion asesu:



- ddim yn gofyn digon o gwestiynau ychwanegol.
- ddim yn meddwl digon am amgylchiadau person cyn gwneud penderfyniad.
- ddim yn meddwl a yw'n addas i'r person fyw yn y lle yna.



Byddai gweithio ar yr problemau hyn yn golygu:

- llai o swyddogion yn gwneud penderfyniadau gwael.
- llai o adolygiadau.
- adolygiadau yn dod i'r un casgliad ag asesiadau yn fwy aml.



Gwnaethom ni ddarganfod fod pobl yn aml yn cael gwybodaeth am le i fynd i ofyn am help.



Ond yn aml, mae'n anodd iawn i'r bobl hyn gael yr help hwnnw.



Roedd pawb wedi gweithio'n wych yn ystod COVID-19.




Roedden nhw wedi sicrhau bod gan bawb le diogel i aros.

Roedd llawer o newidiadau:



- Doedd dim modd cynnal asesiadau gyda phobl yn yr un ystafell â'r swyddog.



- Roedd pobl yn gweithio gartref.



- Roedd pawb yn defnyddio mwy o'u cyfrifiaduron a ffonau.



Roedd y cynghorau wedi datrys llawer o broblemau.

Diolch i waith caled y swyddogion.

Camau gweithredu posib i gynghorau

Roedd y tri chyngor wedi cytuno i:



- llunio fersiynau Hawdd eu Darllen o wybodaeth sy'n cael ei rhoi i:
 - pobl ag anableddau dysgu.
 - pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf.
- ystyried ffyrdd gwahanol o roi gwybod i bobl am benderfyniadau. Er enghraifft, anfon tecst.
- meddwl am iechyd meddwl pobl wrth siarad â nhw neu mewn llythyrau.
- atgoffa swyddogion i edrych yn fanwl ar y wybodaeth sydd ganddyn nhw.
- sicrhau bod pawb yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb a hawliau dynol.





- cynnwys swyddogion sy'n gwneud adolygiadau mewn hyfforddiant ar ddigartrefedd.

Rydyn ni'n credu y dylai cyngorau lleol eraill yng Nghymru:



- siarad â'i gilydd am wneud adolygiadau'n well.



- gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud gwasanaethau'n well.



- helpu swyddogion i wneud penderfyniadau na fydd rhaid eu hadolygu.




- dysgu o'r newidiadau mae'r 3 chyngor lleol dan sylw yn bwriadu eu gwneud.

Rydyn ni hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru:

- edrych ar helpu pawb i weithio yn yr un ffordd.





- sicrhau bod swyddogion bob amser yn meddwl am hawliau dynol a chydraddoldeb mewn asesiadau ac adolygiadau.
- rhoi'r un wybodaeth i bawb yng Nghymru.
- Gwneud hi'n haws i bobl **apelio** yn erbyn penderfyniad adolygiad.

Os nad ydych chi'n cytuno â phenderfyniad, gallwch ofyn am ei newid drwy **apelio**.

- Creu Rheoleiddiwr Tai i helpu cynghorau i weithio yn y ffordd gywir.

Dydyn ni ddim wedi edrych ar Lywodraeth Cymru na chynghorau lleol eraill.


Mae ein hawgrymiadau iddyn nhw yn syniadau yn unig er mwyn gwella.

Byddwn yn gweithio gyda'r cynghorau lleol yna a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Diolch i chi



Diolch i bawb a helpodd yr
Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus i ymchwilio i
ddigartrefedd.



Rydyn ni'n credu y bydd
cynghorau'n gwella'n sylweddol os
byddan nhw'n dysgu o'r gwersi hyn.

Rhagor o wybodaeth



Ffôn: 0300 790 0203



E-bost:
holwch@ombudsman.wales.org.uk



Gwefan:
www.ombwdsmon.cymru



Post:
Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae Pencoed
CF35 5LJ